# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

## RHAN 2

DIGARTREFEDD

## PENNOD 2

CYMORTH I BOBL SY'N DDIGARTREF NEU
O DAN FYGYTHIAD O DDIGARTREFEDD

*Atgyfeirio at awdurdod tai lleol arall*

### 81 Cysylltiad lleol

(1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Bennod hon.

(2) Mae gan berson gysylltiad lleol ag ardal awdurdod tai lleol yng Nghymru neu yn Lloegr os oes gan y person gysylltiad â hi—

(a) gan fod y person yn preswylio yno fel arfer, neu wedi gwneud hynny yn y gorffennol, a bod y preswyliad hwnnw o ddewis y person ei hun,

(b) gan fod y person yn cael ei gyflogi yno,

(c) o ganlyniad i gysylltiadau teuluol, neu

(d) o ganlyniad i amgylchiadau neilltuol.

(3) Nid yw preswyliad mewn ardal o ddewis person ei hun os yw'r person, neu berson y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gyda'r person hwnnw, yn dod yn breswyliwr yno gan fod y person yn cael ei gadw o dan awdurdod deddfiad.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru bennu drwy orchymyn yr amgylchiadau hynny—

(a) pan nad yw person i gael ei drin fel person a gyflogir mewn ardal, neu

(b) pan nad yw preswyliad mewn ardal i gael ei drin fel preswyliad o ddewis person ei hun.

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2014. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 81. (See end of Document for details)*

(5) Mae gan berson gysylltiad lleol ag ardal awdurdod tai lleol yng Nghymru neu yn Lloegr os darparwyd llety i'r person yn yr ardal honno (ar unrhyw adeg) o dan adran 95 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 (cefnogaeth i geiswyr lloches).

(6) Ond nid yw is-adran (5) yn gymwys—

(a) i ddarparu llety i berson yn ardal awdurdod tai lleol os darparwyd llety i'r person yn ardal awdurdod tai lleol arall wedi hynny o dan adran 95 o'r Ddeddf honno, neu

(b) i ddarparu llety mewn canolfan letya yn rhinwedd adran 22 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002 (defnyddio canolfannau lletya ar gyfer cefnogaeth adran 95).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 81 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** A. 81 mewn grym ar 1.12.2014 at ddibenion penodedig gan O.S. 2014/3127, ergl. 2(b), **Atod. Rhn. 2**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2014. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 81.